# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd R. J. Collins**

**Ward: Gorllewin Maesteg**

**Plaid: Llafur**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mai 2023**.** Fe'i darperir er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r un a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Gorllewin Maesteg ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi cyflawni amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi nifer o ymholiadau cyfansoddol yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl yn gynrychiolydd arnoch chi, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau y cynhelir fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.

Mae rhagor o wybodaeth am fy nyletswyddau ar y Pwyllgor Rheoli Datblygu a'r Pwyllgor Trwyddedu ar gael drwy ddefnyddio'r ddolen hon:

Cynghorydd Richard Collins

**<u>Gweithgarwch yn yr Etholaeth</u>**

Rwyf wedi cefnogi nifer o fy etholwyr sydd â phroblemau sy'n ymwneud â thai, anghenion ychwanegol/addasiadau i'w llety a phroblemau gyda landlordiaid preifat.

Yn un o aelodau Maesteg, rwy'n awyddus i gefnogi gwelliannau ym Mynwent Maesteg ar ôl i nifer o'm hetholwyr gysylltu â nhw.

Rwy'n gefnogwr oes i'r Ysbyty Cymunedol ym Maesteg ac rwyf wedi ymrwymo i'w ddyfodol hirdymor o dan reolaeth Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rwy'n Llywodraethwr Awdurdod Lleol yn Ysgol Gynradd Plasnewydd ac a minnau'n un o gyn-ddisgyblion yr ysgol hon cymeraf ddiddordeb mawr yn ei datblygiad yn y dyfodol.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Mae gen i ddiddordeb ym mhob agwedd ar fy nghymuned ac yn sylweddoli pa mor hanfodol bwysig yw cysylltedd â chanolfannau cymunedol, mannau cyfarfod a lles corfforol i aelodau fy ward.

Rwy'n cefnogi aelodau o Ffrindiau Parc Lles Maesteg ac rwy'n gefnogwr brwd o'n grŵp cymorth i Wcráin lleol, Hafan Ddiogel, Maesteg.

Rwy'n Gadeirydd elusen leol ac yn helpu i drefnu seibiannau ar gyfer teuluoedd (oedolion a phlant) teilwng gan gynnwys plant sydd ag anghenion arbennig a'u teuluoedd, teuluoedd mewn profedigaeth ac ati.

Rwyf hefyd yn un o Lywodraethwr Cymunedol Ysgol Iau Santes Fair a Sant Padrig a minnau wedi cael cysylltiad teuluol hir â'r ysgol.

**Gweithgareddau/ Materion Eraill**

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rwyf wedi ail-baentio meinciau ym Mharc Lles Maesteg ac eleni rwyf wedi helpu fy nghyd-gynghorwyr tref i blannu cynwysyddion y tu allan i'r Ganolfan Chwaraeon.

Yn olaf, rwyf wedi bod yn aelod o'n Cyngor Tref lleol ym Maesteg, gan sefyll yn gynghorydd tref dros Orllewin Maesteg, am yr un flynedd ar ddeg ddiwethaf.

**Y Cynghorydd R. J. Collins** **Dyddiad: 3 Gorffennaf 2023.**